

Cyngor Cymuned Betws y Coed Community Council

Minutes of meeting held on 11th December 2023

Presennol – Ffiona Jones (Chair) Neil Pringle (Vice-Chair) Janet Charlton, Catherine Williams, Phil Roberts, Sian Godbert, Cllr Elizabeth Roberts, Haf Jones (Clerk)

1. Ymddiheuriadau – Bedwyr ap Gwyn, Chris Jones,

2. Datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda – Dim

3. Cofnodion cyfarfod mis Tachwedd - cafwyd rhain yn gywir

4. Materion yn codi :-

Pont y Pair - llysdyfiant – dim cynnydd. Clerc i ysgrifennu at Cadw ac Adran Strwythurau CSBC yn mynegu pryderon y Cynghorwyr ac i ofyn a oes arolwg cyflwr o'r bont ar gael – dim ymteb hyd yma.

Fan y Llan – aros canlyniad cais UKSPF – dal i aros, dim dyddiad dim ond “yn fuan”.

Ffordd yr Orsaf, man gollwng a chodi teithwyr – dim ymateb gan SNP. Clerc i drefnu ymweliad safle hefo SNP. Ymweliad safle wedi’w gynnal hefo Edward Jones o SNP, Ffiona Jones, Neil Pringle a’r Clerc, dydd Llun 12fed o Ragfyr. Penderfynwyd rhoi marciau ffordd yn dynodi, ar wyneb y ffordd, man gollwng teithwyr ger mynedfa i’r maes parcio yn Cae Llan a man codi gyferbyn a Mountain Warehouse. Mae SNP am ymlid y posibilrwydd o groesfan ger y toiledau.

Archwiliad Asbestos, Neuadd Goffa – dim ymateb gan y ddau gwmmni a wnaethpwyd cyswllt. Clerc i ddilyn ymhellach. Yn dilyn trafodaethau ar gyfrifoldeb pwy sydd yn gyfrifol am yr arolwg rheoli asbestos, mae CSBC wedi cytuno i ariannu a threfnu’r arolwg.

Ultimate outdoors – y ffens wedi’w gwenud. Eiddo CCBC neu NMWTRA yw’r giatiau diogelwch sydd yn dal mewn lle. Ebstiwyd y ddwy Adran ac mae’r giatiau wedi’w tynnu oddi yno. Awgrymwyd trafod dyfodol posib i’r safle mewn cyfarfod yn y dyfodol – Clerc i’w roi ar agenda.

Pont Soldiwr – gohiriwyd sesiwn ymgysylltu gan CSBC yn Neuadd yr Eglwys, 27ain o Hydref i arddangos y dyluniau ar gyfer sylwadau ond cynhaliwyd y sesiwn ar y 17fed o Dachwedd. Ysgrifennwyd llythyr i CSBC gyda chopiau i Aelodau CSBC sydd hefyd yn Aelodau o Awdurdod y Parc yn cefnogi opsiwn 1 – adeiladu pont newydd fydd yn lletach, yn cadw at gymeriad y bont bresennol fydd yn hyblyg i gerddwyr â beicwyr ac yn estyniad i’r llwybr teithio llesol rhwng Llanrwst a Betws y Coed.

Coed, Cae Llan – Adroddwyd gan Swyddog Coed CSBC bod y gwaith o docio canghenau allan i’w brisio. Gwaith erbyn hyn wedi’w gwblhau ac fe fydd gwaith pellach os angen pan fydd y coed mewn llawn dail.

AD(HR) – dim ymateb gan y cyswllt gwreiddiol ond gwnaeth Neil Pringle gyswllt a CVSC a mewn tro hwythau a Peninsula. Cafwyd cyfarfod hefo Peninsula gan egluro

anghenion a derbyn trosolwg o sut byddau Peninsula yn ein galluogi i gydymffurfio a chyfraith cyflogaeth â chostau.

Peninsula contacted, meeting held to understand needs and how they could assist in ensuring that the Community Council are compliant with employment law together with costs. Resolved to enter into a contract for 12 months at a cost as follows

Gwasanaeth 2257.20

Yswiriant 118.80

Cyfanswm am 12 mis 2376.00 + 475.20 vat = 2851.20 @ 198.00 + 39.20 vat

Taliad misol £237.60 am 12 mis Direct Debit.

Erw Hedd – Dim diweddariad ers cyfarfod ar y safle Gwanwyn 2022. Ebostiwyd Gary Williams a Victoria Currie a chyfeiriodd y mater i Gary. Dim ymateb hyd yma.

UKSPF – Arian a glustnodwyd ar gyfer Cynghorau Tre a Chymuned. Prisiau wedi'w derbyn ar gyfer gwaith ond dim son am y ffurflen gais, Gan fod y swm sydd angen i neud y gwaith yn fach, a fyddai posib ystyried cylludo gwaith gwblhau y ffens ger Pont y Pair o'r gylludeb. – cymeradwyo.

Goleuadau A5 a Cheoden Nadolig yn Pentre Du wedi'w gosod. Trwyddedau wedi'w derbyn. Ychydig o broblemau gyda goleuadau ddim yn gweithio; MEGA electrics yn ceisio datrys. Noson goleuo'r goeden yn Pentre Du wedi'w threfnu at nos Fercher 27ain o Dachwedd gyda lluniaeth i ddilyn yn yr Orsaf Dân Pawb oedd yno wedi mwynhau.

Y Neuadd Goffa – Ymarferion y Panto, gweithdai gwneud llusernau a nifer o archebion 'stafelloedd yn ystod mis Tachwedd ond cafwyd bil o £690 am nwy a chynnydd amlwg mewn defnydd o drydan ers i'r goleuadau panto gael eu defnyddio. Dengys y Smart Meter gyfartaledd o £15 yr ymarfer.

Gwnaed cais a chafwyd dystiolaeth o brawf PAT ar gyfer y goleuadau ac offer panto. Mae'r Oflawraig wedi myegu pryder bod y trydan yn "tripio" yn ystod ymarferion panto. Wedi codi hyn hefo cyswllt y grwp ond dim ymateb. Bydd angen cyfarfod hefo'r grwp ar gyfer panto '24 i sicrhau cydymffurfio a rheolai trydan ac i drafod a chytuno costau heirio.

Dim cysylltiad gan Crest i ymweld a'r dodfren; 'chwaneg wedi'w darganfod ynghyd a bwrdd tennis bwrdd.

Peiriannydd Trydanol CSBC wedi gwneud archwiliad gweledol o'r neuadd ac wedi nodi rhestr fer o eitemau angen sylw. Clerk i drefnu.

Gwnaed cais i geblau goleuadau'r panto gael eu codi i fod allan o gyrraedd – gwnaed hyn.

Methiannau plymio – wedi'w trwshio, stop tap wedi'w leoli a'r dwr wedi'w droi i ffwrdd i archwilio'r darlleniad mesurydd. Defnydd presennol yn costio £78 y mis lle oedd gynt yn £10 y mis. Yn anffodus, dengys bod gollyngiad ar y safle. Archwiliwyd y pibellau

drwy'r adeilad gan y plymar ond dim golwg o ollyngiad. Peryg yw bod y gollyngiad o dan y ddaear ac y bydd angen sganner pwrpasol i'w ddarganfod.

Llythyr yn derbyn grant UKSPF Voluntary Fund wedi'w arwyddo a'i ddychwelyd ond gan and yw CVSC wedi derbyn yr arian hyd yma, nid yw'r arian wedi'w roi yng nghyfri' banc y Cyngor Cymuned. Gofynnodd y Clerc am ganiatad y Cyngorwyr i symud ymlaen hefo'r archwiliadau cyflwr ac ynni. Cymeradwyo.

Bryn y Bont – Gwnaed cysylltliad a Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru i gael diweddariad am osod larwm tan a carbon monoxide. Cynnydd diweddar mewn ceisiadau ac felly y rhestr aros yn hyrach na'r arfer ac anhebygol y bydd rhain mewn lle cyn y Nadolig.

Rhaeadr yr Ewynnol – y safle'n cael ei archwilio ddwywaith yr wythnos. Nifer o ymwelwyr yn ystod mis Tachwedd – 2796. Kashing, y cwmni sydd yn delio hefo taliadau cerdyn wedi'w cyfarwyddo am yr eildro am y newid mewn Clerc.

Wedi cadarnahu bod set o oriadau yn cael eu cadw yn Spar/Tandderwen ar gyfer mynediad i'r rhaeadr mewn argyfwng. Angen cadarnhau hefo'r Orsaf Dan yn Pentre Du bod goriad ar gyfer y giatiau dwbwl i'r Gogledd o'r mynediad yno.

Cae Llan – Ebostiwyd Elen Jones am ddiweddariad ar brosiect Local Places for Nature project ar ddarn y Parc o Gae Llan. Mae Swyddog Prosiect wedi'w phenodi yn ddiweddar ac fe fydd cynllun draft yn cael ei ddarparu'n fuan ar gyfer cyflwyno LLC. Mae'r cones traffic wedi'w hel o'r safle gan y Warden lleol.

Materion ariannol – wrth gylchu'r agenda 5 diwrnod cyn y cyfarfod, Clerc yn aros am gyfriflen banc mis Tachwedd ac wedyn fe ddarperyr adroddiad llawn o incwm a gwariant. Bydd anfonebau ac amserlen talu yn cael ei cylchredeg cyn y cyfarfod pryd bydd unrhyw ymholiad ac eglurhad yn cael eu cyfeirio cyn cymmeradwyaeth.

Adroddiad PCSO – Cerbyd wedi'w adael ar Ffordd Caergybi wedi mynd.

5. **CSBC** – Cais am gymorth ariannol ar gyfer toiledau Pont y Pair – llythyr wedi'w gynnwys hefo'r agenda. Tri opsiwn:-

- Cais am £727.00 o nawdd blynyddol ar gyfer glanhau'r toiledau.
- Y gymuned i gymryd trosodd y glanhau gyda CBSC yn darparu'r defnyddiau.
- Y gymuned i ystyried cymryd y cyfleusterau trosodd gyda chefnogaeth o £500 y flwyddyn.

Risg o beidio cymryd yr un o'r opsiynau yw cau'r toiledau yn Pont y Pair.

Penderfynnwyd pedio cefnogi yr un o'r opsiynau, yn hytrach awgrymu bod y £727.00 ar gyfer glanhau toiledau Pont y Pair yn cael ei geisio o'r elw a wneir o doiledau Cae Llan. Hefyd, awgrymyr gwneud gwell defnydd o aelod o staff toiledau Cae Llan drwy ddefnyddio'r aelod i lanhau cyfleusterau Pont y Pair.

6. **Gwasanaethau GP – Betws y Coed.** Yn dilyn dosbarthu llythyrau am newidiadau yn y gwasanaeth, gwnaed cyswllt gyda Llais yn ceisio gwell dealltwriaeth o drefniadau

i'r dyfodol tu hwnt i fis Ebrill os na fydd BCHU yn llwyddianus mewn denu contractwr newydd. Os mae dyma fydd y canlyniad yna bydd BCU yn rhedeg y gwasanaeth. Penderfynnwyd gweithio hefo Llais a Cyng Liz Roberts i gyhoeddi datganiad i dawelu meddwl cleifion na fydd y Feddygfa'n cau.

Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa, nos Lun 8fed o Ionawr am 7 o'r gloch ple bydd Llyr Gruffydd a Llais yn mynychu a'r gobaith yw y bydd cynrychiolydd o BCU yn bresennol.

7. Materion ariannol – cysoniad banc ar gyfer mis Tachwedd wedi'w baratoi ac yn gytbwys a'r gyfriflen banc. Rhestrwyd yr anfonebau a'r taliadau ar gyfer archilio a chymereadwyo. Cwbwlhauwyd sieciau ac fe'i arwyddwyd gan Ffiona Jones a Janet Charlton yn y cyfarfod. Ffurflen precept 24/25 wedi'w derbyn; dyddiad cau 19 o Ionawr 2024. Cynllunio gwariant, blaenoriaethu a cylludeb 24/25 fydd prif eitem agenda cyfarfod mis Ionawr.

8. Er gwyboeth –

Cyfarfod Cyfoeth Naturiol Cymru – 20/11/23 hefo Justin Hanson, Arweinydd Tim Pobl a Lle ynglyn a Cynllun Adnoddau Coedydd Gwydir. Dymuniad i'r gymuned fod yn gysylltiedig yn nyddiau cynnar y cynllun.

Defibrillators – Derbyniwyd galwad ffon gan Tomos Hughes, Wales Ambulance Service (WAS), i drafod cyfrifoldebau posib Cynghorau Cymuned i'r dyfodol o defibs ynghyd a gofyniad am gymorth ariannol i newid cypyrddau dau de-fib yn Betws y Coed a osodwyd ar adeiladau business ac arianwyd gan y perchnogion; cost o tua £600 yr un. Gofynnodd y Clerc am gyfarwyddeb gan y Gwasanaeth Ambiwlans i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Sgips Cymunedol wedi'w trefnu fel a ganlyn:-

Dydd Mercher 10fed o Ionawr 2024 – Pentre Du

Dydd Mercher 6ed o Fawrth 2024 – Ffordd yr Orsaf

Bydd y sgips ar y safle dim hwyrach na 9 o'r gloch ac yn gadael pan fydd y sgip yn llawn neu am 2 o'r gloch, pa bynnag un ddaw gynta'.

Bydd gweithiwr hefo'r sgip drwy gydol yr amser ar y safle. Gall y gweithiwr wrthod derbyn defnyddiau peryglus, anaddas neu anniogel i'w drin.

Dim ond bagiau bach o bridd fydd yn cael eu derbyn.

Dim rwbel adeiladu, platar ayyb.

Ni fydd gwastraff o faniau masnachol nag hefo arwydd ysgrifenedig yn cael eu derbyn.

Bydd posteri yn y ddau hysbysfwrdd ac ar y dudalennau facebook lleol i Betws y Coed.

Gan bod ansicrwydd am ddyfodol y gwasanaeth gan CSBC, nid ydynt yn cymryd archebion tu hwnt i fis Mawrth 2024 ar hyn o bryd.

Adroddiad PCSO – difrod troseddol i goeden ar Ffordd Caergybi drwy roi nifer o hoelion copr ynddi sydd rwan wedi'w tynnu.

11. Unrhyw fater arall

Yn dilyn llwydiant yr orymdaith llusernau fel rhan o Nadolig Betws, dymuna'r Cyngorwyr longyfarch a mynegi eu diolch i'r Swyddogion Cymunedol a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith. Gwaned casgliad ar y noson o £309.74 sydd wedi'w fancio yng nghyfri-banc y Cyngor Cymuned ac a fydd ar gael ar gyfer digwyddiad 2024.

12 Dyddiad y cyfarfod nesa' 8fed o Ionawr 2024, gohiriwyd tan 15fed o Ionawr oherwydd cyfarfod cyhoeddus, dyfodol gwasanaeth meddygfa Betws y Coed.

Arwyddwyd/Signed

Dyddiad/Date